WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Y Cynghorydd Mark Pritchard – Arweinydd
Ian Bancroft – Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Guildhall
Wrecsam
LL11 1AY

Cyfeirnod: 1558A2019-20
Dyddiad Cyhoeddi: 1 Tachwedd 2019

Annwyl Mark ac Ian

Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 26 Gorffennaf 2019 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae f'adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a gododd o archwiliad y cyfrifon yn f'adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ar 25 Gorffennaf 2019.

Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau er fy mod, ym mis Gorffennaf 2019, wedi nodi yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol[1] rai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

Er gwaethaf y casgliad uchod, hoffwn dynnu sylw at y ffaith fy mod yn cynnal adolygiad o gynaladwyedd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd, a disgwyliaf adrodd yn ôl i'r Cyngor erbyn Rhagfyr 2019. Bydd f'adroddiad yn nodi unrhyw feysydd penodol lle y gellid gwneud gwelliannau.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Gorffennaf 2019

Ni dderbyniais gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr ynghylch archwiliad 2018-19. Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynghylch trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu tystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.

Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2018-19 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn gynnar yn 2020, unwaith y bydd rhaglen y gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

---

[1] (gyda chyfeiriad troednodyn at Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 a gyhoeddwyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru)

Ffi archwilio ariannol

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

Richard Harries
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru